

# 17. Crist a'r Goeden Nadolig

## CYMERIADAU

- MAM
- TAD
- PLENTYN 1, 2, 3, 4 a 5
- ESEIA
- MICHA
- DINESYDD 1, 2, 3 a 4
- GABRIEL
- MAIR
- ELISABETH
- GŴR DOETH 1, 2 a 3
- BUGAIL 1, 2, 3 a 4.

## CYMERIADAU MUD

- JOSEFF
- Angylion ychwanegol
- Dinasyddion ychwanegol
- Bugeiliaid ychwanegol
- Gweision y doethion [*dewisol*]

---

## GOLYGFA 1

STORIWR: ‘Sut y daeth y Ffynidwydden i fod yn Goeden Nadolig.’

Pan anwyd y baban Iesu, teimlai pawb a phopeth, dynion, anifeiliaid, coed o bob math, hapusrwydd mawr. Tu allan i'r stabl, lle ganwyd y baban Iesu, safai tair coeden, Palmwydden, Olewydden a Ffynidwydden fach. Bod dydd byddai pobl yn mynd heibio'r coed gyda'u hanrhegion i'r baban. “Buasem ninnau yn hoffi rhoi anrhegion iddo hefyd,” meddai'r coed. “Fe roddaf i fy neilen fwyaf,” meddai'r Balmwydden dal. “Pan ddaw'r tywydd poeth gall rhywun ddefnyddio'r ddeilen i wyntyllu a chadw'r un bach yn gysurus.” “Fe roddaf i olew melys iddo,” meddai'r Olewydden. “Ond be alla i ei roi iddo?” gofynnodd y Ffynidwydden fach yn bryderus.

“Ti! Mae dy ganghennau di'n rhy bigog a'th ddagrau yn rhy ludiog,” meddai'r ddwy goeden arall. “Does gen ti ddim i'w roi iddo.”

Roedd y Ffynidwydden fach yn drist iawn. Meddyliodd yn galed am rywbeth da y byddai'r baban yn ei hoffi, ond ni allai feddwl am unrhyw beth digon da.

Ond yn wir i chi, roedd angel wedi clywed y sgwrs rhwng y coed a theimlai'n flin dros y Ffynidwydden fach.

Disgleiriai'r sêr yn y ffurfafen ac yna gyda'i dwylo tyner, gafaelodd yr angel mewn seren fechan, y disgleiriaf ohonynt i gyd a rhoddodd hi ar un o ganghennau pigog y Ffynidwydden fach.

Tu mewn i'r stabl, gorweddai'r baban Iesu – roedd o'n effro ac yn hapus ei fyd. Gwelai'r tair coeden oedd tu allan i'r stabl. O! dyna dlws yr edrychai'r Ffynidwydden fach, roedd rhywbeth disglair iawn arni ac fe wyddoch pa mor hoff ydy babanod o weld pethau disglair del. Roedd y Ffynidwydden yn edrych yn hyfryd iawn. Symudai'r baban ei ddwylo bach yn ôl a blaen a chwaddai'n braf.

Byth ers yr amser yma, bu'r ffynidwydden yn goeden Nadolig i gymaint o blant bach y byd.

[*Daw'r PLANT, y TAD a'r FAM i'r llwyfan*]

PLENTYN 1: Tydi'r goeden Nadolig yn edrych yn hardd?

PLENTYN 2: Os rhywbeth, mae hi'n harddach nag un llynedd.

MAM: Wel, gan mai dim ond unwaith y flwyddyn y byddwn yn ei gweld, fe fydda i bob amser yn hoffi gweld coeden Nadolig sydd wedi'i haddurno'n dda.

TAD: Pa un o'r addurniadau sydd orau gennych chi?

[*Mae'r PLANT yn siarad ar draws ei gilydd*]

Un ar y tro, os gwelwch yn dda!

PLENTYN 3: Y tinsel sydd orau gen i.

PLENTYN 4: Y goleuadau sydd orau gen i, yn enwedig pan ddaw hi'n nos.

PLENTYN 1: Wel, dwi'n meddwl fod y dylwythen deg yn ddel iawn.

MAM: Ydy, fi oedd piau hi pan oeddwn i'n ferch fach.

PLENTYN 2: Pwy sydd eisiau tylwythen deg ar y goeden beth bynnag?

TAD: [*Yn ddifrifol*] Wel, go iawn, nid tylwythen deg sydd i fod yno, angel ddylai fod yno.

PLENTYN 2: Pam angel?

MAM: Meddyliwch am stori'r geni. Roedd gan yr angylion ran arbennig iawn yn honno.

PLENTYN 4: Seren fydd ar ben y goeden yn neuadd yr ysgol.

TAD: Daeth y seren i chwarae rhan bwysig iawn yn stori'r geni hefyd.

PLENTYN 5: Wel, tydi'r pethau gorau ddim ar y goeden hyd yn oed, fe fyddan nhw o gwmpas ei gwaelod ar fore dydd Nadolig!

MAM: Dwi'n meddwl 'mod i'n cytuno efo ti. Dwi'n cofio pan oeddwn i 'run oed â thi fe gefais anrheg arbennig iawn gan fy nain. Mae o gen i o hyd.

[*Mae'r FAM yn mynd at gwpwrdd ac yn tynnu Beibl allan*]

PLENTYN 3: Gawsoch chi'r Beibl yna fel anrheg Nadolig?

MAM: Do, ac yma mae stori'r Nadolig yn dechrau.

PLENTYN 5: Ie, pan gafodd y baban Iesu ei eni yn y stabl ym Methlehem.

TAD: Ond fe ddechreuodd stori fendigedig y Nadolig amser maith cyn hynny hyd yn oed. Soniodd y proffwydi am ddyfodiad y baban ymhell, bell yn ôl.

[*Mae'n agor y Beibl ac yn troi'r tudalennau*]

CAROL: 'Bore Dydd Nadolig', *Clychau'r Nadolig*.

## **GOLYGFA 2**

Mae'r teulu'n edrych ar y digwyddiadau o ochr y llwyfan. Daw pobl Israel a'r proffwydi ESEIA a MICHA ar y llwyfan.

ESEIA: Rydw i, y proffwyd Eseia, yn eich rhybuddio, drigolion Jerwsalem, os na wnewch chi newid eich ffordd o fyw, yna daw Brenin Asyria a'ch lladd chi i gyd.

DINESYDD 1: Fel ag y gwnaeth o yn Samaria?

DINESYDD 2: Oes 'na unrhyw obaith i ni, Eseia?

ESEIA: Oes. Bydd Duw yn anfon baban i'r byd. "Gelwir ei enw ef, Rhyfeddol, Cynghorwr, y Duw cadarn, Tad tragwyddoldeb, Tywysog tangnefedd. Ar helaethrwydd ei lywodraeth a'i dangnefedd ni fydd diwedd, ar orseddfa Dafydd ac ar ei frenhiniaeth ef, i'w threfnu hi, ac i'w chadarnhau â barn ac â chyfiawnder o'r pryd hwn a hyd byth. Sef Arglwydd y lluoedd a wna hyn."

DINESYDD 3: Be fydd enw'r baban yma?

ESEIA: "Am hynny yr Arglwydd ei hun a ddyry i chwi arwydd; wele, morwyn a fydd feichiog, ac a esgwr ar fab, ac a eilw ei enw ef, Immanuel."

DINESYDD 4: Pa bryd fydd o'n cael ei eni?

[*Mae MICHA yn camu ymlaen*]

MICHA: Fe ddywedodd Duw wrtha i, y proffwyd Micha, y bydd o'n cael ei eni ym Methlehem. Bydd y dref yn tyfu i fod y dref fwyaf poblogaidd yn y byd.

CAROL: 'Pwy ddaeth at Mair?', *Glas Glas Blaned*.

[Daw MAIR i mewn, eistedd i lawr gan edrych yn feddylgar a thrist. Daw GABRIEL i mewn hefyd]

GABRIEL: Nac ofna, Mair; canys ti a gefaist ffafr gyda Duw. Ac wele, ti a gei feichiogi yn dy groth, ac a esgori ar fab, ac a eilw ei enw ef Iesu. Hwn fydd mawr, ac a elwir yn fab y Goruchaf: ac iddo y rhydd yr Arglwydd Dduw orseddfa ei dad Dafydd. Ac efe a deyrnasa ar dŷ Jacob yn dragywydd; ac ar ei frenhiniaeth ni bydd diwedd.

MAIR: Pa fodd y bydd hyn?

GABRIEL: Gwaith Duw ei hun fydd hyn. Mae dy gyfnither Elisabeth hefyd yn feichiog er ei bod hi tipyn yn hŷn na ti.

MAIR: Wel, am newyddion bendigedig. Fe wna i beth bynnag mae Duw am i mi ei wneud.

CAROL: ‘Crist Bendigedig’, *Clychau’r Nadolig*.

[Daw ELISBAETH i mewn]

MAIR: O, dyna hyfryd ydy dy weld di, Elisabeth.

ELISABETH: Dwi wedi cael y profiad rhyfeddaf Mair! Daeth yr Angel Gabriel ata i a deud wrtha i fy mod am gael baban bach.

MAIR: Rydw i mor falch drosot Elisabeth. Mae gen i newyddion hefyd.

ELISABETH: Be?

MAIR: Daeth yr un angel ata i. Rydw i am gael bachgen bach, ei enw fydd Iesu. Ef fydd y Meseia.

ELISABETH: Ioan fydd enw fy mab i, ac mae o i baratoi’r bobl at ddyfodiad Iesu.

CAROL: ‘Clychau’r Nadolig’, *Clychau’r Nadolig*.

### **GOLYGFA 3**

Mae’r teulu ar y llwyfan.

PLENTYN 4: Ydy hyn i gyd yn rhan o stori’r Nadolig?

MAM: Rydach chi’n sylweddoli rŵan pam rydw i’n trysori’r Beibl gymaint.

PLENTYN 2: Rydw i’n deall rŵan hefyd pam y dylen ni gael angel ar ben y goeden.

PLENTYN 4: Roedd hynna’n ddiddorol iawn. Ond be am y seren?

TAD: [Yn agor y Beibl] Mae hi yma i gyd. Rŵan, gwrandewch ar weddill y stori.

[Daw'r DOETHION i mewn ac eistedd wrth y bwrdd i edrych ar y llyfr hynafol]

CAROL: 'Y Doethion', *Clychau'r Nadolig*.

GŴR DOETH 1: Ydych chi'n credu y gall y sêr ddeud rhywbeth wrthyn ni am y dyfodol?

GŴR DOETH 2: Mae dynion wedi credu drwy'r oesau fod y sêr yn darogan y ffordd y dylen ni fyw.

GŴR DOETH 3: Neithiwr, fe welais i seren newydd ryfedd, roedd hi'n disgleirio llawer mwy na'r gweddill.

GŴR DOETH 1: Fe edrychwn arni hi heno 'ma.

GŴR DOETH 3: Does dim angen aros nes iddi dywyllu, mae hi mor ddisglair hyd yn oed yng ngolau dydd. Fe'i gwelais hi cyn i mi ddod i mewn yma.

GŴR DOETH 2: Gwelwyd sêr disglair rhyfedd gan ddynion sylwgar yn y gorffennol.

GŴR DOETH 3: Mae'r seren yma siŵr o fod yn arwydd fod yna frenin newydd wedi'i eni.

GŴR DOETH 2: Oni fyddai'n well i ni fynd ag anrhegion i'r brenin?

CAROL: 5ed pennill 'Tri ŷm Ni' a'r gytgan, *Clychau'r Nadolig*.

[Daw'r BUGEILIAID i mewn. Maen nhw'n eistedd o gwmpas y tân ar ochr y bryn, tu allan i Fethlehem]

BUGAIL 1: Roedd hi'n brysur ym Methlehem heddiw 'doedd?

BUGAIL 2: Dwi'n falch iawn o fod yma ar ochr y bryn heno, yn ddigon pell o'r dyrfa 'na, hyd yn oed os ydy hi'n llawer oerach yma.

BUGAIL 3: Dwi'n meddwl ei bod hi'n beth gwirion iawn i bawb fynd yn ôl i'w tref enedigol yn unswydd ar gyfer cyfrifiad yr Ymerawdwr Awgwstws.

BUGAIL 4: A phrif bwrpas hynny ydy rhoi cyfle iddo ddwyn eu harian!

BUGAIL 1: Wel, rydw i'n edrych ymlaen cymaint at weld brenin arall yn teyrnasu yn Jwda. Rhywun fel y Brenin Dafydd a oedd yn arfer bugeilio ei ddefaid ar yr union fan yma ym Methlehem!

BUGAIL 2: Ia wir. Fe ddeudodd y proffwyd Micha y byddai brenin yn cael ei eni ym Methlehem, brenin a fyddai'n teyrnasu arnon ni.

BUGAIL 3: A deudodd y proffwyd Eseia y byddai'r brenin yn un o deulu Jwda ac y byddai ei deyrnasiad yn ddoeth a chryf.

- BUGAIL 4: Rydan ni wir angen brenin newydd i'n hachub ni o grafangau'r Rhufeiniaid yma sy'n difetha'n gwlad.
- BUGAIL 1: Dwi'n meddwl y bydd rhaid i ni ddioddef cwmni'r Rhufeiniaid a dioddef eu rheolau caeth.
- BUGAIL 2: Mae'r defaid wedi tawelu. Be am drïo cael tipyn o gwsg?  
[*Maen nhw'n gorwedd i lawr*]
- CAROL: 'Fwyn Fugeiliaid', *Clychau'r Nadolig*.  
[*Daw ANGYLION i mewn yn ystod y pennill olaf. Mae'r goleuadau yn diffodd. Daw GABRIEL at y BUGEILIAID. Daw'r golau ymlaen ar ei ymddangosiad*]
- BUGAIL 3: Deffrwch ffrindiau, dwi'n siŵr ein bod mewn perygl mawr.
- BUGAIL 4: Be ydy'r golau llachar sydd fan acw?
- BUGAIL 1: Welais i 'rioed beth fel 'na o'r blaen.
- BUGAIL 2: Well i ni fynd o 'ma tra bo gynnon ni gyfle.  
[*Mae'r BUGEILIAID yn camu'n ôl mewn ofn*]
- GABRIEL: Nac ofnwch: Canys wele, yr wyf fi yn mynegi i chwi newyddion da o lawenydd mawr, yr hwn a fydd i'r holl bobl ...
- BUGAIL 3: Roeddwn i'n credu mai angel oedd yna.
- GABRIEL: Canys ganwyd i chwi heddiw Geidwad yn ninas Dafydd, yr hwn ydy Crist yr Arglwydd. A hyn fydd arwydd i chwi, chwi a gewch y dyn bach wedi ei rwymo mewn cadachau, a'i ddodi yn y preseb.
- CAROL: 'Ceidwad Byd', *Clychau'r Nadolig*.
- BUGAIL 1: Dewch, brysiwch, awn i Fethlehem i weld y brenin newydd.
- BUGAIL 2: Ond be am y defaid?
- BUGAIL 3: O, fe fyddan nhw'n iawn eu hunain am dipyn.
- BUGAIL 4: Efallai y dylen ni fynd ag oen bach yn anrheg i'r brenin newydd.  
[*Mae'r BUGEILIAID yn dewis oen ac yn mynd tua Bethlehem*]
- CAROL: 'Mewn preseb llwm', *Clychau'r Nadolig*.

## GOLYGFA 4

Daw MAIR a JOSEFF i mewn tra cenir y garol. Daw'r BUGEILIAID i mewn hefyd gan gario anrhegion – oen, ffon bugail a chwibanogl.

BUGAIL 1: Rydan ni wedi gweld angylion hyfryd wrth i ni warchod ein praidd ar ochr y bryniau.

BUGAIL 2: Fe ddeudodd yr angel wrthan ni y bydden ni'n canfod y baban wedi ei rwymo mewn cadachau ac yn gorwedd yn y preseb yn y stabl.

BUGAIL 3: Gawn ni ddod i mewn ac addoli'r brenin newydd-anedig yma?

BUGAIL 4: Fe ddaethon ni ag oen yn anrheg; dywedir yn yr ysgrythurau y bydd yn Feseia pan ddaw yn Oen Duw, yr hwn a fydd yn cario ymaith ddrygioni'r byd.

[BUGEILIAID yn rhoi eu hanrhegion i JOSEFF. Daw'r DOETHION i mewn]

GŴR DOETH 3: Credwn y bydd y baban yma'n frenin pwysig iawn.

GŴR DOETH 2: Fe ddaethon ni â'r anrhegion yma i'r brenin.

GŴR DOETH 1: Dof ag aur oherwydd rwy'n credu y bydd y brenin hwn yn frenin hedd.

GŴR DOETH 3: Rwy'n dod â thus oherwydd credaf y bydd y brenin yma'n broffwyd fydd yn pregethu gair Duw.

GŴR DOETH 2: Mae gen i fyrr, oherwydd credaf y bydd y brenin yma'n broffwyd mawr fydd yn rhoi ei einioes drosom.

CAROL: 'Mewn preseb llwm', *Clychau'r Nadolig*.

MAM: Doeddet ti ddim yn gwybod pa mor agos at y gwir oeddet ti pan ddywedaist mai'r pethau gorau oll oedd yr anrhegion oedd o dan y goeden Nadolig.

TAD: Ond roedd yr angel a'r seren yn bwysig iawn, oherwydd roedden nhw'n ein harwain at anrheg gorau Duw.

MAM: Mae'r goleuadau hyfryd disglair ar y goeden Nadolig yn cynrychioli Iesu, sef anrheg Duw – golau'r byd.

CAROL: 'O deuwch ffyddloniaid', *Clychau'r Nadolig*.

## Diwedd